



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Sefydlogrwydd y Farchnad

Rheoliadau drafft, cod ymarfer a chanllawiau statudol ar adroddiadau  
ar sefydlogrwydd y farchnad gofal cymdeithasol

Dyddiad cyhoeddi: 16 Medi 2020  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 25 Tachwedd 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

<b>Trosolwg</b>	Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn am reoliadau drafft a chod ymarfer / canllawiau statudol ar adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu paratoi a'u cyhoeddi o dan adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
<b>Sut mae ymateb</b>	Anfonwch ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at <a href="mailto:PartnershipandIntegration@gov.wales">PartnershipandIntegration@gov.wales</a>  neu drwy'r post i: Y Gangen Partneriaeth ac Integreiddio Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ  drwy ddefnyddio'r ffurflen ymgynghori sydd ynghlwm.
<b>Rhagor o wybodaeth, a dogfennau cysylltiedig</b>	<b>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</b>
<b>Manylion cyswllt</b>	I gael rhagor o wybodaeth:  <a href="mailto:PartnershipandIntegration@gov.wales">PartnershipandIntegration@gov.wales</a>

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data dros unrhyw ddata personol yr ydych yn ei ddarparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn a gyhoeddir yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata amdanoch sy'n cael eu dal fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am ddim mwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

e-bost:  
[Data.ProtectionOfficer@gov.wales](mailto:Data.ProtectionOfficer@gov.wales)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123  
1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## **Crynodeb**

Mae adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn mynnu bod awdurdodau lleol yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dechrau adran 144B (yn rhannol), a dod â set o reoliadau i rym erbyn mis Ebrill 2021.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth yn Neddf 2014, i fynnu bod awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn ymgymryd â'r swyddogaethau hyn mewn partneriaeth, a chynhyrchu un adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer pob un o'r saith ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Bydd y rheoliadau'n cael eu hategu gan god ymarfer i awdurdodau lleol, ar arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, a chanllawiau statudol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar weithio mewn partneriaeth i baratoi ac i gyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer pob ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar reoliadau drafft, cod ymarfer a chanllawiau statudol.

## **Beth yw'r prif faterion?**

Mae gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddyletswydd yn barod, o dan adran 14 o Ddeddf 2014, i weithio gyda'r bwrdd iechyd lleol i asesu anghenion gofal a chymorth eu poblogaethau lleol a'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Rhaid cynhyrchu'r asesiadau o anghenion y boblogaeth ar sail ôl-troed rhanbarthol, gydag awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn cydweithio drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynhyrchu asesiad ar y cyd ar gyfer pob ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cyhoeddwyd yr asesiadau cyntaf o anghenion y boblogaeth ym mis Ebrill 2017.

Mae adran 144B, a gafodd ei mewnosod yn Neddf 2014 gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, yn golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol asesu digonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac asesu sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cael eu rheoleiddio. Er bod yr asesiadau o anghenion y boblogaeth yn delio â'r galw, bydd adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn ystyried digonolrwydd y cyflenwad i ddiwallu'r galw hwnnw.

Mae hefyd yn rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol weithio mewn partneriaeth drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynhyrchu cynlluniau ardal o dan adran 14A o Ddeddf 2014. Mae'r cynlluniau hyn yn ddogfennau strategol allweddol sy'n nodi ystod a lefel y gofal a'r cymorth y mae partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn bwriadu eu darparu (neu drefnu i'w darparu) mewn ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Cafodd y cynlluniau cyntaf eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2018. Rhaid cynhyrchu asesiadau o anghenion y boblogaeth a chynlluniau ardal bob pum mlynedd, yn unol â chylch etholiadol llywodraeth leol.

Rydym yn bwriadu ailadrodd y trefniadau hyn ar gyfer adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, er mwyn i'w gwaith paratoi orgyffwrdd â'r asesiad o anghenion y boblogaeth a bod hyn yn cyfrannu at y cynllun ardal. Rydym yn cynnig bod yr adroddiadau cyntaf ar sefydlogrwydd y farchnad yn cael eu cyhoeddi erbyn 1 Mehefin 2022, dri mis ar ôl yr asesiadau nesaf o anghenion y boblogaeth, a'u bod yn cyfrannu at y cynlluniau ardal a fydd yn cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2023.

Mae canllawiau ar asesiadau o anghenion y boblogaeth a chynlluniau ardal ar gael yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/canllawiau-statudol-yn-ymwneud-a-chynlluniau-ardal-o-dan-adran-14a.pdf>

## Beth ydym ni'n ei gynnig?

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cychwyn adran 144B cyn diwedd tymor y Senedd hon, er mwyn rhoi digon o amser i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol cyn bydd angen cyflwyno'r adroddiadau cyntaf ar sefydlogrwydd y farchnad. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau sydd wedi bod ar y farchnad gofal cymdeithasol ers tro byd, sy'n waeth nawr o ganlyniad i effaith pandemig Covid-19. Bwriad ein cynigion ar gyfer adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yw sicrhau bod awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol wedi cynnal asesiad o ddigonolrwydd gofal a chymorth ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a bod ganddynt ddarlun cyfoes a chynhwysfawr o gyfansoddiad a nodweddion y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau hyderus a gwybodus am ddarpariaeth, a chomisiynu ystod amrywiol o wasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol ac sy'n helpu i hyrwyddo canlyniadau da i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cychwyn adran 144B a dod â rheoliadau i rym a fydd yn:

- golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol weithio mewn partneriaeth i baratoi ac i gyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer pob ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- pennu ei bod rhaid ystyried y materion canlynol mewn perthynas â gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio:
  - digonolrwydd gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth
  - ansawdd cyffredinol gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cael eu rheoleiddio
  - tueddiadau cyfredol neu sy'n datblygu mewn gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth
  - heriau sylweddol o ran darparu gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cael eu rheoleiddio nawr neu yn y dyfodol
  - effaith comisiynu ac ariannu gofal a chymorth.
- pennu mai'r cyfnod asesu fydd y cyfnod ers cyhoeddi'r asesiad diweddaraf o anghenion y boblogaeth

- mynnu bod adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig ar eu gwefannau erbyn 1 Mehefin 2022, ac adroddiadau dilynol bob pum mlynedd

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu dod â chod ymarfer i rym o dan adran 145 o Ddeddf 2014, ar arfer swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, a chanllawiau statudol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol o dan adran 169 o Ddeddf 2014, ar weithio mewn partneriaeth i baratoi ac i gyhoeddi'r adroddiadau hyn ar sail ranbarthol.

Mae'r cod ymarfer a'r canllawiau statudol yn cynnwys gofynion ychwanegol i:

- ymgysylltu â darparwyr neu ddarpar ddarparwyr gwasanaethau gofal a chymorth ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector
- cymryd camau rhesymol i ymgysylltu â dinasyddion, yn enwedig oedolion a phlant y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt
- penodi corff cydgysylltu arweiniol i gynnal yr asesiad a pharatoi a chyhoeddi'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad
- adolygu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn rheolaidd a chynhyrchu adroddiadau diwygiedig neu atodiadau yn ôl yr angen.

## **Beth ydyn ni eisiau ei wybod?**

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ar y rheoliadau drafft, y cod ymarfer a'r canllawiau statudol gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a sefydliadau neu sectorau eraill sy'n cael eu cynrychioli ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol neu sydd â diddordeb mewn darparu gofal a chymorth i'r boblogaeth leol. Byddai hefyd yn croesawu sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd, yn enwedig unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Yn benodol, byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

### **Cwestiwn 1**

Ydych chi'n cytuno y dylid paratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ar sail ranbarthol, gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol? Os nad ydych chi, rhowch eich rhesymau.

### **Cwestiwn 2**

Ydych chi'n cytuno y dylid cynhyrchu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad bob pum mlynedd ochr yn ochr â'r asesiadau o anghenion y boblogaeth? Os nad ydych chi, pa drefniadau eraill byddech chi'n eu cynnig, a pham?

### **Cwestiwn 3**

Ydyn ni wedi nodi'r holl faterion allweddol y mae angen eu cynnwys mewn adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad? Os oes materion eraill rydych chi'n meddwl y dylid eu cynnwys, rhowch fanylion.

### **Cwestiwn 4**

Ydych chi'n cytuno y dylid adolygu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn rheolaidd a'u diwygio yn ôl yr angen, ond o leiaf ar ganol y cylch pum mlynedd? Os nad ydych chi, pa drefniadau monitro ac adolygu eraill byddech chi'n eu cynnig, a pham?

### **Cwestiwn 5**

Yn eich barn chi, ydy'r cod ymarfer drafft yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng yr hyn mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud a'r hyn sydd yn ôl eu disgrisiwn? Oes unrhyw ofynion neu ganllawiau eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu hychwanegu, neu ffyrdd eraill o wella'r ddogfen?

### **Cwestiwn 6**

Yn eich barn chi, ydy'r canllawiau statudol drafft yn nodi'n glir y dull partneriaeth y dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ei fabwysiadu wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad? Oes unrhyw ofynion neu ganllawiau eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu hychwanegu, neu ffyrdd eraill o wella'r ddogfen?

### **Cwestiwn 7**

Yn eich barn chi, beth fydd effaith ein cynigion ar ddyletswyddau cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu ar ddyletswydd awdurdod lleol o dan Ddeddf 2014 i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, neu Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn?

### **Cwestiwn 8**

Byddem yn hoffi clywed eich barn am effaith ein cynigion ar gyfer yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?



## **Cwestiwn 9**

Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig ar adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **Cwestiwm 10**

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Hoffem wybod i ba raddau yr ydych yn credu y bydd ein cynigion yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a nodir yn y Ddeddf honno.

Ceir rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yma: <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

## **Cwestiwn 11**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Rhowch eich sylwadau yma:

**Ffurflen Ymateb  
i'r  
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1**

Ydych chi'n cytuno y dylid paratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ar sail ranbarthol, gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol? Os nad ydych chi, rhowch eich rhesymau.

**Cwestiwn 2**

Ydych chi'n cytuno y dylid cynhyrchu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad bob pum mlynedd ochr yn ochr â'r asesiadau o anghenion y boblogaeth? Os nad ydych chi, pa drefniadau eraill byddech chi'n eu cynnig, a pham?

**Cwestiwn 3**

Ydyn ni wedi nodi'r holl faterion allweddol y mae angen eu cynnwys mewn adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad? Os oes materion eraill rydych chi'n meddwl y dylid eu cynnwys, rhowch fanylion.

**Cwestiwn 4**

Ydych chi'n cytuno y dylid adolygu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn rheolaidd a'u diwygio yn ôl yr angen, ond o leiaf ar ganol y cylch pum mlynedd? Os nad ydych chi, pa drefniadau monitro ac adolygu eraill byddech chi'n eu cynnig, a pham?

**Cwestiwn 5**

Yn eich barn chi, ydy'r cod ymarfer drafft yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng yr hyn mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud a'r hyn sydd yn ôl eu disgrisiwn? Oes unrhyw ofynion neu ganllawiau eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu hychwanegu, neu ffyrdd eraill o wella'r ddogfen?

**Cwestiwn 6**

Yn eich barn chi, ydy'r canllawiau statudol drafft yn nodi'n glir y dull partneriaeth y dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ei fabwysiadu wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad? Oes unrhyw ofynion neu ganllawiau eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu hychwanegu, neu ffyrdd eraill o wella'r ddogfen?

## **Cwestiwn 7**

Yn eich barn chi, beth fydd effaith ein cynigion ar ddyletswyddau cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu ar ddyletswydd awdurdod lleol o dan Ddeddf 2014 i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, neu Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn?

## **Cwestiwn 8**

Byddem yn hoffi clywed eich barn am effaith ein cynigion ar gyfer yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

## **Cwestiwn 9**

Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig ar adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **Cwestiwm 10**

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Hoffem wybod i ba raddau yr ydych yn credu y bydd ein cynigion yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a nodir yn y Ddeddf honno.

Ceir rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yma: <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

## **Cwestiwn 11**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: